ENWAU LLEOEDD YNG NGWAITH GUTO'R GLYN

Ann Parry Owen

Cyfeirir at rif cerdd a rhif llinell ar Wefan Guto'r Glyn: *www.gutorglyn.net*.
Mae 'n' ar ôl y cyfeiriad yn dangos bod nodyn ar gael

Aber Abergwyngregyn, yn Arllechwedd Uchaf, ychydig i'r dwyrain o Fangor 100.1n

Aber Dau Gledd Aberdaugleddau, harbwr ger tref Penfro 28.18n **Aber Daugleddau** 114.25–6n

Aberhodni Aberhonddu, bwrdeistref ym Mrycheiniog 31.8

Abermarlais cartref nawdd ym mhlwyf Llansadwrn, sir Gaerfyrddin 14.15

Aberogwen aber afon Ogwen, o bosibl ger Llandygái neu Dalybont, Gwynedd 61.8n

Aberriw plwyf ar y ffin rhwng cymydau Cedewain a Llannerch Hudol, sir Drefaldwyn 38.4n

Abertanad trefgordd ac enw cartref nawdd ym mhlwyf Llanyblodwel, tua 10km i'r de o Groesoswallt, swydd Amwythig 86.20, 86.5n, 89.37n, 98.30

Actwn Acton, ansicr 5.12n

Aensio Anjou, talaith i'r de o Maine yng ngogledd-orllewin Ffrainc, yn cyfateb yn fras i *département* Maine-et-Loire heddiw 3.20n, 36

Aeron afon Aeron yng Ngheredigion 12.47

Affrig Affrica 56.50n **yr Affrig** 96.29

Almaen yr Almaen 29.27 **Sermania** 20.2n

Alun afon sy'n tarddu uwch Llandegla ac yn llifo drwy'r Wyddgrug i ymuno ag afon Dyfrdwy 42.3n, 89.23n

Alun Ystrad Ystrad Alun, cwmwd i'r gogledd-orllewin o Wrecsam yn cynnwys yr Wyddgrug 43.42n

Alwen afon sy'n tarddu ar fynydd Hiraethog ac yn llifo i'r dwyrain gan ymuno ag afon Dyfrdwy ger Cynwyd 42.1n

Allt Melydn Allt Melyd, pentref a phlwyf yng nghwmwd Prestatyn yng nghantref Tegeingl 70.30n

Allt-y-gwinau ger Drws-y-nant ym mlaen Dyffryn Wnion, Meirionnydd 46a.6

Amwythig prif dref swydd Amwythig 77.18, 48 **'Mwythig** 77.1, 63 a gw. **iarll Amwythig**

Anhuniawg Anhuniog, cwmwd yn Uwch Aeron, Ceredigion, rhwng Henfynyw a Llanrhystud 10.14, 11.21

Annwn yr arall fyd 108.59n

Aras Arras, yn nhalaith Artois, gogledd-ddwyrain Ffrainc 96.26n

Arberth tref a chantref yn sir Benfro 114.30n

Ardudwy cantref ym Meirionnydd 44.59n, 52.14n, 100.12n

Arfon cantref yng Ngwynedd Is Conwy a ymrannai'n ddau gwmwd, Uwch Gwyrfai ac Is Gwyrfai 46b.21n, 56.33n, 57.53 **dwy Arfon** 60.4n a gw. **Caer 'n Arfon**

Arllechwedd cantref yng Ngwynedd Is Conwy 100.13n

Arwystl Arwystli, cantref ym Mhowys 82.26n

Asia, yr Asia 22.7

Aur afon yn swydd Henffordd 32.12n

Bactwn Bacton, plwyf yn Nyffryn Aur, swydd Henffordd, lleoliad Cwrtnewydd, cartref nawdd 32.8

Badd, y Caerfaddon, tref yng ngogledd Gwlad yr Haf, enwog am ei baddonau iachusol 109.48n, 111.6n, 115.45n **Baddwn** 81.7n

Baiwn Bayonne, ardal yn ne-orllewin Ffrainc a oedd yn bwysig yn y fasnach win 20a.32n

Bala, y bwrdeistref ym Mhenllyn, Meirionnydd 42.10, 49.39n

Banbri Banbury, swydd Rhydychen, lleoliad un o frwydrau enwocaf Rhyfel y Rhosynnau, a ymladdwyd 24 Gorffennaf 1469 24.20n, 25.8n, 79.2n

Bangor dinas yn Arfon, Gwynedd 58.4n, 13, 59.2n, 61.27n, 35, 60, 108.4n, 109.15, 30

Barstabl Barnstaple, tref a phorthladd bwysig yng ngogledd Dyfnaint 21.66n

Berfeddwlad, y Y Berfeddwlad / Gwynedd Is Conwy, yn cynnwys cantrefi Rhos, Rhufoniog, Dyffryn Clwyd a Thegeingl gw. **Is Conwy**

Bers Bersham, pentref ger Wrecsam ym Maelor Gymraeg 73.71

Berwyn bryniau yn ymestyn o Landrillo yn Edeirnion i Langollen ac at Ddyffryn Tanad 57.40n, 72.14n, 76.26n, 108.51, 121.21n

Biwmares bwrdeistref ar lan y Fenai yng nghwmwd Dindaethwy, Môn 60.14n

Blaen-tren cartref nawdd ym mhlwyf Llanybydder 13.11, 21, 66

Blagmer Blakemere, ger Whitchurch, swydd Amwythig 78.32n

Blodfol Llanyblodwel, plwyf yn Nyffryn Tanad, 10km i'r gorllewin o Groesoswallt, swydd Amwythig 88.29n, 89.59n

Bodsilin cartref nawdd yn Arllechwedd Uchaf 63.10n

Breiddin bryniau ar y ffin rhwng Powys a Lloegr, yn agos i Landrinio 72.16n

Bresawnt ansicr: ai Brescia yn yr Eidal, tref enwog am gynhyrchu arfau dur? 1.31n

Bron Hyrddin gw. **Hyrddin**

Brycheiniawg Brycheiniog, hen deyrnas, a sir yn ddiweddarach, yn ne-ddwyrain Cymru; y brif dref yw Aberhonddu 27.10 **Brycheiniog** 31.59

Bryncunallt trefgordd a chartref nawdd ger y Waun, Nanheudwy 103.42n, 104.19, 105.39n

Brysto Bryste, Bristol, tref yn ne-orllewin Lloegr a'r ail borthladd bwysicaf yn Lloegr yn y 15g. 114.24n

Brytaen gw. **Prydain**

Buellt hen dalaith a chantref yng nghanolbarth Cymru, i'r gogledd-orllewin o Frycheiniog 1.8n, 2.20

Bwlaen Boulogne, porthladd pwysig yng ngogledd Ffrainc a enwir am ei gwin 15.38n **Bwlen** 75.21, 28n

Bwrdiaws Bordeaux, dinas enwog am ei gwin yn ne-orllewin Ffrainc 20.22n, 20a.31

Byrgwyn Bourgogne, rhanbarth yn nwyrain Ffrainc a rhannau o orllewin y Swistir rhwng afonydd Rhôn a Saône, enwog am ei gwinoedd 96.28n, 98.36

Cae Alo man anh., Powys 98.10n

Caeaw Caeo, cwmwd yn y Cantref Mawr, sir Gaerfyrddin 9.6 **Caeo** 6.12n

Caer[1] Chester, dinas ar lan afon Dyfrdwy ar y ffin â sir y Fflint 34.20n, 43.25, 67.24, 69.2n, 35 **Caerlleon** 101a.49

Caer[2] gw. **Caer Llion**

Caer[3] gw. **sir Gaer**

Caer-dro gw. **Troea**

Caerdyf Caerdydd, prif dref arglwyddiaeth Morgannwg 12.8, 9, 17.9, 20.35n

Caerfyrddin prif dref sir Gaerfyrddin, yng nghwmwd Derllys 8.6, 14.1n

Caer Gai caer Rufeinig ger Llanuwchllyn, Meirionnydd 45.26n

Caer-gaint Canterbury, swydd Gaint, enwog am ei chadeirlan a oedd yn gyrchfan pererinion 23.18n, 102.30n **Caint** 58.10

Caerloyw Gloucester 23.12n, 25.34

Caerlŷr Leicester, dinas ar safle hen gaer Rufeinig yng nghanolbarth Lloegr 36.38

Caer Llion Caerllion ar Wysg, ger Casnewydd, a gysylltir â'r Brenin Arthur a'i Ford Gron 61.58n, 125.8 **Caerllion** 26.50, 38.42n, 125.4n **Caerlleon** 114.19n **Caer** 75.18n

Caer 'n Arfon Caernarfon, yng nghantref Arfon, Gwynedd 63.61

Caer Selem Jerwsalem, prifddinas Israel a chyrchfan pwysig i bererinion 90.4, 12n

Caint gw. **Caer-gaint**

Calais porthladd yng ngogledd Ffrainc 73.45n

Caron ardal Tregaron, Ceredigion 52.23n, 57

Carreg Cennen castell 6km i'r de o Landeilo, sir Gaerfyrddin 21.22n

Carreg Hofa Carreghwfa, plwyf ar y Gororau rhwng cwmwd Deuddwr a'r Deuparth, tua 2km i'r gorllewin o Lanymynech 87.40n, 88.24n **Craig Hofa** 89.51n

Castell Gwent Cas-gwent, Chepstow, tref ar lan afon Gwy, Gwent 25.6n, 35

Castellnewydd Casnewydd, tref ac arglwyddiaeth yng Ngwent 18.35

Castil Castille, talaith ym Mhenrhyn Iberia, bellach yn rhan o Sbaen 29.11n

Cedewain cwmwd ac arglwyddiaeth ym Mhowys Wenwynwyn, o amgylch y Drenewydd a rhwng afonydd Hafren a Rhiw 27.45n, 39.15 **Cydewain** 37.14, 16, 66, 38.50

Cefn yr Ais ansicr, ym Mhowys 44.23n

Celyddon coedwig yng ngorllewin yr Alban lle aeth Myrddin yn wallgof 114.26

Celli-wig Celliwig, llys y Brenin Arthur yng Nghernyw 71.1n

Cemais, y plwyf yng nghwmwd Cyfeiliog, sir Drefaldwyn 41.29n

Cent Kent, sir yn ne-ddwyrain Lloegr 79.23

Ceredigiawn Ceredigion a ymrannai'n Uwch Aeron i'r gogledd ac Is Aeron i'r de 9.35

Ceri cwmwd bychan rhwng Cedewain a Maelienydd, ar y ffin â Lloegr, yn aml yn cynrychioli pegwn dwyreiniol pell 37.15, 65, 43.27n

Cernyw yn y de-orllewin eithaf 29.17

Cilan gw. **Hywel Cilan**

Clas, y y Clas-ar-Wy, arglwyddiaeth fechan i'r gorllewin o'r Gelli Gandryll 36.12

Clawdd Offa Clawdd Offa, y ffin draddodiadol rhwng Cymru a Lloegr 68.21 **y Clawdd** 107.19n

Cliffordd Clifford, castell ac arglwyddiaeth fechan ar lan afon Gwy 36.12

Clwyd afon sy'n tarddu yng Nghlocaenog ac yn llifo drwy Ddyffryn Clwyd ac ymuno â'r môr yn y Foryd, y Rhyl 43.1n, 49.34n, 71.8n

Cnwcin, y Cnwcin, Knockin, pentref ger Croesoswallt, swydd Amwythig 79.50n, 55

Coetmawr Coetmor, cartref nawdd ger Llanllechid, Arllechwedd Uchaf, Gwynedd 99.4n, 100.67n **Coetmor** 100.22n, 42n

Collfryn, y cartref nawdd yng nghwmwd Deuddwr, Powys Wenwynwyn 83.66n

Comin Plas, y Cwrt y 'Common Pleas' yn Neuadd Westminster yn Llundain 99.8n

Conwy[1] bwrdeistref ar lan aber afon Conwy, Gwynedd 43.2n, 60.18n a gw. **Siôn Conwy**

Conwy[2] afon sy'n llifo drwy Ddyffryn Conwy i'r môr yng Nghonwy, Gwynedd 21.68n, 61.32n

Cornatun mynydd ger Trefaldwyn, ar y ffin â swydd Amwythig 85.24n

Corsygedol cartref nawdd yn Llanddwywe-is-y-graig, Dyffryn Ardudwy, Meirionnydd 52.55n

Corwen un o brif drefi Edeirnion, ar lan afon Dyfrdwy ac islaw bryniau Berwyn 43.6n, 19, 64, 44.4n, 44a.5, 20n, 45.6, 47.10, 38, 49, 84.7n, 52

Craig Hofa gw. Carreg Hofa

Craig Nannau uwch llys Nannau, Llanfachreth, cwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd 87.39n

Croesoswallt tref ac arglwyddiaeth yn swydd Amwythig, tua 10km i'r de o'r Waun 96.24, 102.19n, 103.45n

Cryniarth, y cartref nawdd ger Llandrillo, Edeirnion 48.69

Cwchwillan Cochwillan, cartref nawdd ychydig i'r de o Dal-y-bont, Arllechwedd Uchaf, Gwynedd 55.15n

Cwm, y plwyf yng nghwmwd Rhuddlan, Tegeingl 43.7n, 53, 44.58n, 44a.22, 56

Cwrtnewydd, y cartref nawdd yn Bacton, swydd Henffordd 36.35n, 54

Cwyntry Coventry, yn Warwickshire 44.34n

Cydweli plwyf a chwmwd yn Sir Gaerfyrddin 98.9n

Cyfeiliog cwmwd yn ne-orllewin Powys 40.6, 24

Cymer abaty Sistersaidd ger Dolgellau, Meirionnydd 50.44n

Cymerau, y aber afonydd Efyrnwy a Hafren, ger Llanrinio, cwmwd Deuddwr, dwyrain Powys 65.56

Cymru 1.46, 2.11, 19, 3.72, 10.40, 14.52, 19.20, 80, 20a.35, 21.1n, 65, 70, 24.73, 85, 25.12, 64n, 27.57, 29.64, 36.39, 54.4, 60.21, 62.26n, 78.12n **Cymry** 79.42

Cynllaith cwmwd ym Mhowys Fadog a Swydd y Waun 90.44n, 48n, 56n

Cynwyd trefgordd ym mhlwyf Llangar, Edeirnion 43.2n

Chwaen, y cartref nawdd yng nghwmwd Llifon, Môn 63.21n

Chwitffordd plwyf yng nghwmwd Cwnsyllt, Tegeingl 70.36n

Deau de Cymru 27.11, 36.1, 52.6, 114.10 **y Deau** 8.11, 9.43, 53, 17.3, 26, 19.6n, 17n, 71, 24.8, 27.56, 48.7, 66.42, 126.25 **Deheubarth** 8.22, 9.8 ac yn y cyfuniad **Deheubarthwyr** 8.26 **Deheudir** 9.27, 41 **y Deheudir** 35.1n **Deheuwlad** 14.4, 24.83 **y Ddeheuwlad** 8.43, 43.10n

Defnsir Dyfnaint, Devon, sir yn ne-orllewinol Lloegr 24.17n **Dyfnaint** 23.17n

Deheubarth, Deheudir, Deheuwlad gw. **Deau**

Deifr Deira (ac fel enw pobl yn 26.6) 52.2n

Derbi gw. **Harri o Dderbi**

Deuddwr cwmwd rhwng afonydd Efyrnwy a Hafren yn nwyrain Powys Wenwynwyn 61.16n, 83.68, 84.15n, 85.4, 18 a gw. **Gruffudd Fychan Deuddwr**

Deuma enw ar fynachlog Sistersaidd Llantarnam, merch eglwys i Ystrad-fflur a sefydlwyd yn 1177 8.30n

Deuparth, y Y Deuparth, yn arglwyddiaeth Croesoswallt, swydd Amwythig 95.44n

Dinas y Garrai Doncaster, swydd Efrog 24.3n

Dinbech gw. **Dinbych**

Dinbych bwrdeistref yn Nyffryn Clwyd 67.4n, 71.15, 26n, 105.60n **Dinbech** 66.33n

Dinefwr castell ger Llandeilo, prif lys tywysogion y Deheubarth 12.29

Dofr Dover, porthladd yn ne-ddwyrain eithaf Lloegr 27.54, 29.17, 38.46n

Dôl Eryri man anh. yn Eryri, Gwynedd 108.57n

Dolgellau prif dref Meirionnydd 50.11n

Dotawnt afon neu nant anh. yn ardal Mantes neu Rouen, Ffrainc? 1.47n

Dref-fawr, y gw. **Trefawr**

Dref Hir, y Longtown, gynt Ewias Lacy, tref a chanolfan arglwyddiaeth Euas, bellach yn swydd Henffordd 33.52, 36.36

Drefrudd, y Dref Rudd gw. **Trefrydd**

Dulas afon sy'n tarddu ger Machynlleth ac yn llifo i afon Dyfi 42.3n

Dwywent gw. **Gwent**

Dyfed un o hen daleithiau Cymru, yn y de-orllewin 28.20n, 114.28

Dyfi afon sy'n tarddu ger Aran Fawddwy ac yn llifo i'r môr yn Aberdyfi 20a.45n, 66.43

Dyfnaint gw. **Defnsir**

Dyfolwern Tafolwern, trefgordd ger Llanbryn-mair 40.12n

Dyfrdwy afon sy'n tarddu uwch Llanuwchllyn ac yn llifo i Lyn Tegid, drwy Ddyffryn Dyfrdwy ac ymlaen i Lannau Dyfrdwy 42.3n, 43.1n, 52.12n

Dyffryn Aur Golden Valley, swydd Henffordd 36.7n

Dyffryn Clwyd Dyffryn Clwyd, cantref ac arglwyddiaeth yng Ngwynedd Is Conwy 66.38

Dyffryn Gwy yn ne-ddwyrain Cymru 30.10, 64

Dyffryn Nedd dyffryn y llifa afon Nedd drwyddo i'r môr ym Mae Abertawe 15.34

Edeirniawn cwmwd Edeirnion ym Mhenllyn, Meirionnydd, a gynhwysai dref Corwen 47.8 **Edeirnion** 43.58n, 52.49, 66.39, 93.8

Efyrnwy afon sy'n llifo i afon Hafren yng nghwmwd Deuddwr, yn nwyrain Powys Wenwynwyn 65.55, 89.33n

Eglwyseg trefgordd yn Llangollen, Nanheudwy 112.22n

Egwestl gw. **Llanegwestl**

Eglwys-wen, yr Yr Eglwyswen, Whitchurch, swydd Amwythig 75.52n

Ehangwen neuadd y Brenin Arthur 22.29n

Eifionydd cwmwd a chantref yng Ngwynedd 87.17, 68, 100.11n

Eitwn Eutun, trefgordd ym mhlwyf Erbistog ym Maelor Gymraeg 109.61n

Elsmer Ellesmere, tref fechan yn swydd Amwythig, tua 13km i'r gogledd-ddwyrain o Groesoswallt 75.10n

Emral gw. **Parc Emral**

Ergin Ergyng, rhanbarth traddodiadol Gymraeg yn swydd Henffordd, i'r de-ddwyrain o Euas, S. Archenfield 36.10, 120.24n

Eryri mynyddoedd yng Ngwynedd 21.40, 56.26n, 57.13n, 100.8n

Euas arglwyddiaeth a chwmwd yn gorwedd ar lethrau dwyreiniol y Mynydd Du, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a'i chanolfan yn y Dref Hir (Longtown) 32.2n, 14, 33.56, 34.28, 35.6, 13, 40, 120.32n, 126.53n

Eutun Eyton on Severn, i'r dwyrain o Amwythig 77.64n

Fêl Ynys, y gw. **Prydain**

Fenni Y Fenni, tref yng ngogledd-orllewin Gwent 125.15

Fenis dinas yng ngogledd yr Eidal 20.12

Felallt, y Beeston, rhwng Caer a Nantwich yn swydd Gaer 38.45n, 56.23n

Ffecnam Feckenham, lleoliad fforest frenhinol yn nwyrain swydd Gaerwrangon 60.40n

Ffordun plwyf ger y Trallwng, Powys 38.8n

Fforest y Dên Fforest y Ddena, yng ngorllewin swydd Gaerloyw ac yn agos i'r ffin rhwng Gwent a Lloegr 25.21

Fflint, y bwrdeistref yng ngogledd-ddwyrain Cymru 21.60, 71.28n

Ffrainc 1.58, 3.6, 73, 4.14, 16, 25, 24.69, 28.51, 29.44, 48.47n, 78.13n, 96.27n, 28, 99.1n, 100.47n **Ffrawns** 29.27

Gasgwin Gascoigne, ardal yn ne-orllewin Ffrainc 20a.33n

Gefenni yr ardal o amgylch tref y Fenni, Gwent 12.11, 19.9n, 23, 20.78, 22.29n

Gilwch, y Gillow, maenordy ym mhlwyf Henllan (Hentland), swydd Henffordd 120.30n

Glan Feurig ai enw'r fron y safai Nannau ar ei glan, ym mhlwyf Llanfachreth, cwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd? 51.3n **y Lan** 49.17n, 51.6n

Glan Hafren ansicr, ai llys coll ger Aberriw, sir Drefaldwyn? 37.71

Glasgrug ansicr, ai'r llys ym mhlwyf Llanbadarn-y-Creuddyn, gogledd Ceredigion? 10.51n

Glyn[1], y ansicr 60.59n

Glyn[2], y yr un elfen ag a geir yn enw Guto'r Glyn; ai Glyndyfrdwy? 58.42n, 59.37n, 110.43 **Glyn** 44a.24

Glyn[3], y gw. **Glyn Aeron**

Glyn Aeron yng nghwmwd Mebwynion, Ceredigion 10.9 **y Glyn** 10.19, 60

Glyndŵr gw. **Glyndyfrdwy**

Glyndyfrdwy cwmwd ac arglwyddiaeth, ym Meirionnydd 43.34n, 80.44 **Glyndŵr** 48.65n a gw. o bosibl **Glyn[2], y**

Glyn Egwestl gw. **Llanegwestl**

Glyn-nedd ym Morgannwg, lleoliad catref Rhys ap Siancyn yn Aberpergwm 15.10, 34.4n, 35.38, 114.9n

Glyn Rhin Glyn Rhein, Dyffryn Rhein yn yr Almaen, enwog am ei win 20a.34n

Gogledd, y Gogledd Lloegr, yr Hen Ogledd 35.62n

Gomora Gomorra, dinas yng ngwlad yr Iorddonen, Beibl 89.14n

Graig Wen, y gw. **Wengraig, y**

Grig, y Gwlad Groeg 96.29n

Gwanas ym mhlwyf Brithdir 92.55

Gwenllwg Gwynllŵg, cantref rhwng afonydd Rhymni ac Wysg yn ne-ddwyrain Cymru, ond yn fwy penodol enw ar yr iseldir o gwmpas Casnewydd 18a.20n **Gwaun Llŵg** 114.15n

Gwent ymrannai'n ddwy ran, sef Gwent Is Coed a Gwent Uwch Coed, ac yn dair arglwyddiaeth, Cas-gwent, Brynbuga a'r Fenni 4.2, 12, 18, 24, 28, 50, 78, 19.20, 28, 20.22, 26, 31, 72, 20a.36, 37, 63, 22.18, 34, 46, 55, 60, 68, 23.2, 50, 24.40, 60, 25.14, 26.4, 45, 51, 56, 27.8, 28.4, 34n, 34.20n, 27, 35.14, 36.5, 95.60, 117.48, 125.2, 12 **Gwentoedd** 114.40 **Dwywent** 4.23, 43, 19.19n, 46, 23.49, 24.8n, 25.69, 27.56, 114.14n **Teirgwent** 25.13 **y Teirgwent** 22.59n a gw. **iarll Gwent**

Gwepra Gwepra, trefgordd ym mhlwyf Llaneurgain, cwmwd Cwnsyllt, Tegeingl 70.6n

Gwrecsam Wrecsam, tref ym Maelor Gymraeg 72.19n, 110.36n, 111.19n

Gwy afon sy'n tarddu ym Mhumlumon ac yn llifo drwy ddwyrain Cymru ac i'r môr ger Cas-gwent 30.20, 36.15n

Gwydris Goodrich, castell a phentref yn ne swydd Henffordd 78.34

Gwyddelwern plwyf yng nghwmwd Edeirnion, Meirionnydd 52.18n, 29

Gwynedd talaith, yn ymrannu'n Wynedd Uwch Conwy (i'r gorllewin o afon Conwy) a Gwynedd Is Conwy / y Berfeddwlad (i'r dwyrain o afon Conwy) 15.18, 20.53, 20a.40, 50, 21.2, 11, 28, 32, 44, 52, 55, 59, 67, 26.2, 42.6, 19, 32, 40, 43.11, 16, 33, 60, 47.13, 48.8n, 54, 70n, 49.18, 50.26, 45, 52.6, 28, 53.12, 55.33n, 42, 56.36, 68, 57.16, 28, 46, 54, 58.14n, 44, 58.55, 59.8, 60.8, 13, 61.10, 32, 37, 59, 63.6n, 64.32, 50, 66.41, 78.39, 84.53, 87.18n, 99.9n, 100.10, 13, 20, 105.47, 109.41, 113.74, 114.10, 117.48, 126.27 **dwy Wynedd** 10.46, 61.26n, 64.16n, 100.4n

Gwynionydd cwmwd rhwng afonydd Teifi ac Aeron 12.50n

Gwynlle Nant Nancwnlle, plwyf yng nghwmwd Pennardd, Uwch Aeron, Ceredigion 10.22n

Gŵyr arglwyddiaeth a phenrhyn i'r gorllewin o Abertawe 26.54n

Gwyrfái[1] cwmwd Is Gwyrfai, Arfon, Gwynedd 58.4n

Gwyrfái[2] cymydau Is Gwyrfai ac Uwch Gwyrfai yng nghantref Arfon, Gwynedd 61.27n

Gyffin, y plwyf ger Conwy, Gwynedd 108.5n

Hafren afon sy'n tarddu ym Mhumlumon ac yn llifo drwy'r Gororau ac i Fôr Hafren 19.73n, 25.54n, 39.2, 66.44, 80.8n, 89.24n, 115.33n

Haltun Halchdyn, Halghton, ym Maelor Saesneg 75.3n

Harddlech Harlech, tref a chastell a adeiladwyd gan Edward I ar arfordir Ardudwy 21.14n, 24

Hawlffordd Hwlffordd, tref yng nghantref Rhos, sir Benfro 114.22n

Hendwr, yr cartref nawdd ym mhlwyf Llandrillo, cwmwd Edeirnion, Meirionnydd 48.9n, 66

Henffordd gw. **swydd Henffordd**

Henllan pentref a phlwyf ger Dinbych, yng nghwmwd Is Aled, cantref Rhufoniog 61.64n, 71.42n

Hiraethog ucheldir i'r gorllewin o Ruthun 122.17n

Hold, yr Holt, tref ym Maelor Gymraeg 73.30n, 33, 69

Hyrddin bryn coediog ar bwys abaty Glyn-y-groes, Llangollen 112.34n **Llwyn Hyrddin** 113.87n **Bron Hyrddin** 111.27n

Iâl cwmwd ym Mhowys Fadog 52.28n, 66.37, 73.4n, 76.3n, 9, 94.41n, 101.4n, 101a.4, 105.46n, 108.33, 109.6n, 20, 34, 110.4n, 27, 64, 111.24, 25, 112.6, 58, 113.27, 74, 114.58n, 60, 116.7, 117.38, 44, 50, 60n, 126.56n **mawrIal** 5.47n, 113.62

India 28.3n **yr India** 20a.20n

Iorc Caerefrog, prif ddinas swydd Efrog 14.20, 29.18n, 28n, 36.42, 38.48n, 44.40n, 58.38n a gw. **dug o Iorc**, **dug yn Iorc**

Is Aeron rhan ddeheuol Ceredigion islaw'r afon Aeron 13.49n

Is Coed cwmwd yn Is Aeron, Ceredigion 12.49

Is Conwy Y Berfeddwlad / Gwynedd Is Conwy, yn cynnwys cantrefi Rhos, Rhufoniog, Dyffryn Clwyd a Thegeingl 71.17n, 105.55n **y Berfeddwlad** 43.65n, 70.29n

Israel 20.29 **yr Israel** 25.71, 48.41

Iwerddon 29.20n, 78.13n

Litsffild Caerlwytgoed, Lichfield, dinas yn swydd Stafford 44.41n

Llai, y pentref ger Gresffordd sydd ychydig i'r gogledd o Wrecsam 75.13, 60n

Llanarmon-yn-Iâl prif eglwys Iâl 77.45

Llandaf cadeirlan ac esgobaeth ychydig i'r gogledd o Gaerdydd, Morgannwg 17.14, 58, 61

Llandeilo Llandeilo Gresynni, pentref a phlwyf yng Ngwent 19.25n

Llandrunio Llandrinio, plwyf yng nghwmwd Deuddwr 84.46, 58

Llandygái Llandegái, pentref a phlwyf yn Arllechwedd Uchaf, Gwynedd 56.35n

Llanddewi Rhydderch plwyf tua 6km i'r dwyrain o'r Fenni, Gwent 4.10 **Llanddewi** 4.6

Llanddwyn eglwys a phlwyf yng nghwmwd Menai, Môn 61.28n

Llanegwestl Llanegwystl, Llynegwestl, Glynegwystl, Egwestl, Egwystl, Plas-y-groes, Pant yr Hengroes, enwau ar abaty Sistersaidd Glyn-y-groes, ger Llangollen 101a.44n, 110.60, 114.34n **Llan Egwestl** 117.42n **Llynegwestl** 101.6n **Llyn Egwestl** 112.10n, 59–60 **Llyn y Gwystl** 111.3n **Glyn Egwestl** 110.12n **Egwestl** 105.44n, 111.51n, 113.19n, 115.11n, 116.18n **Egwystl** 108.16n, 116.18n **Pant-y-groes** 110.6n, 112.58n **Pant yr Hengroes** 110.38 **Plas-y-groes** 116.19n

Llanelwy plwyf a chadeirlan yng nghwmwd Rhuddlan, Tegeingl 70.7n, 39, 94.41n

Llaneurgain plwyf yng nghwmwd Cwnsyllt, Tegeingl 70.20n, 51

Llanfachraith plwyf yng nghwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd 50.10n

Llan-faes pentref a phlwyf yng nghwmwd Dindaethwy, cantref Rhosyr, Môn 56.32n

Llangedwyn plwyf yng nghwmwd Mochnant Is Rhaeadr 94.1

Llangurig plwyf yng nghantref Arwystli 39.66n

Llangywair Llangywer, plwyf ger Llyn Tegid yng nghwmwd Penllyn, Meirionnydd 42.46

Llaniwllyn Llanuwchllyn, plwyf yng nghwmwd Penllyn, Meirionnydd 42.11n

Llannerch, cartref nawdd ym Mhenrhyn Llŷn 53.1n, 39, 66

Llannerch-y-medd canolfan fasnach yn Nhwrcelyn, Môn 62.39n

Llanwnnog plwyf tua 3km i'r gogledd o Gaersws yn Arwystli 82.28n

Llanybyddair Llanybydder, plwyf ar lan afon Teifi yng ngogledd sir Gaerfyrddin 13.54n

Llanymddyfri tref ar lan afon Tywi yng ngogledd-ddwyrain sir Gaerfyrddin 27.54n

Llan-y-mynaich Llanymynech, plwyf ar y ffin rhwng Cymru a swydd Amwythig, ychydig i'r gogledd o'r Trallwng 89.40

Llechwedd Ystrad cartref nawdd ger Llyn Tegid, plwyf Llangywer 42.29n, 43

Llëyn gw. **Llŷn**

Llinwent maenor ym mhlwyf Llanbister, sir Faesyfed, cartref nawdd 49.29n

Lliwan Llifon, cwmwd yng nghantref Aberffraw, Môn 63.24n

Lloegr 1.4, 43, 3.12, 74, 6.6, 21.13, 69, 23.16, 20, 25, 25.67, 27.12n, 23, 28.53, 38.40, 41.3, 19, 22, 27, 44.25, 44a.54, 47.30, 49.10, 60.22, 67.28, 71.34n, 78.11, 42, 81.26n, 53, 84.56, 86.31, 90.43, 102.38, 107.52

Llowes plwyf ar lan afon Gwy yn sir Faesyfed 30.41n

Llundain 23.21, 29.40, 38.34, 41.1, 8, 16n, 94.65n, 99.12, 102.21n

Llwydiarth cartref nawdd i'r gogledd-ddwyrain o Lannerch-y-medd, cwmwd Twrcelyn, Môn 62.30, 40, 65.19n

Llwyn Hyrddin gw. **Hyrddin**

Llwyn y Neuadd o bosibl Llwyn Bryn y Neuadd ym mhlwyf yn Llangar, Meirionnydd 42.24n

Llwyn-onn cartref nawdd ym mhlwyf Llanwnnog, Arwystli 82.28n

Llwyn-onn, y o bosibl yn Llanaber, Ardudwy, cartref nawdd 49.8n

Llychlyn Sgandinafia 120.7n

Llydaw 24.27, 86.38n

Llŷn cantref yn eithaf Penrhyn Llŷn, Gwynedd 55.44n **Llëyn** 53.4, 26, 28, 66.40

Llynegwestl gw. **Llanegwestl**

Llyn Tegyd Llyn Tegid, y Bala 68.36

Llyweni Lleweni, cartref nawdd ger Dinbych 71.3n, 37

Mabeilfyw Mabelfyw, cwmwd yn y Cantref Mawr, sir Gaerfyrddin a gynhwysai blwyfi Llanybydder a Phencarreg 12.14n, 60, 13.26

Mabwynion Mebwynion, cwmwd i'r gogledd o gwmwd Mabelfyw yn Is Aeron, Ceredigion 12.48n

Machynllaith Machynlleth, plwyf ar lan afon Dyfi, yng Nghyfeiliog 40.27n

Maelawr cymydau Maelor Gymraeg a Maelor Saesneg ym Mhowys Fadog 3.70, 45.50, 53.9n, 70.30n, 72.4n, 57, 62, 76.6n, 86.18n, 88.13n, 89.34n, 103.32n **Maelor** 3.26, 53, 73.2n, 74.14, 22, 75.5n, 46, 50, 58n, 79.68n, 110.2n **y ddwy Faelawr** 104.4n **y ddwy Faelor** 66.35n **dwy Faelor** 72.22n

Maelienydd gw. **Mael Maelienydd**

Maelor Gymräeg cwmwd ym Mhowys Fadog 73.67

Maen Maine, talaith i'r gogledd o Anjou ac i'r de o Normandi 3.20n, 36

Maenan abaty Sistersaidd yn Nyffryn Conwy, merch eglwys i Ystrad-fflur a sefydlwyd yn 1186 8.30, 110.62, 122.26n

Maesbrog Maesbrook, pentref i'r dwyrain o Lanymynech a ger y Cnwcin yn swydd Amwythig 79.38n, 122.26n

Main, y trefddegwm ym Meifod, Mechain, Powys 27.46n, 82.17n, 89.12n

Maleiniog maenor ar ddwy lan afon Gwy, yn agos i Laneigon a'r Gelli 30.56n

Malltraeth pentref a thraeth ym Môn ger aber afon Cefni 64.5n, 39, 65.2n, 32, 37 **Mall Draeth** 65a.14n **y Traeth Mall** 63.11n

Manafon pentref ger Aberriw, sir Drefaldwyn 38.54n

Mars, y Y Mers, arglwyddiaethau wedi eu lleoli gan fwyaf yn nwyrain Cymru ac a oedd o dan awdurdod arglwyddi Eingl-Normanaidd 13.16n, 27.46, 29.19n, 41.2, 44.70, 70.40n, 71.18n, 72.28, 75.11, 51, 59, 78.57n, 79.53, 80.32n, 86.33, 102.14n, 105.18n

Mathafarn plasty yn Llanwrin 40.11n

Mawddwy cwmwd i'r de o Benllyn, yn cynnwys plwyfi Caereinion Fechan, Llanymawddwy a Mallwyd 80.19, 44n, 54, 81.15, 65, 72

Mawnd gw. **Mawnt**

Mawns Le Mans, prif dref Maine, Ffrainc 3.22n

Mawnt Mantes, tref ar afon Seine, rhwng Rouen a Pharis, Ffrainc 1.6n, 10, 21, 32, 48, 56, 2.54 **Mawnd** 2.10

Mechain cantref ym Mhowys Wenwynwyn yn ymrannu'n ddau gwmwd, Mechain Is Coed a Mechain Uwch Coed 82.18n, 115.19n a gw. **Syr Siôn Mechain**

Meifod plwyf yng nghantref Mechain, Powys 89.20n

Meirionnydd cantref yn ne Gwynedd yn cynnwys cymydau Tal-y-bont ac Ystumanner 42.14, 55.46n

Melan Milan, dinas yng ngogledd yr Eidal a oedd yn enwog am gynhyrchu dur 1.27, 73.2n, 11n, 98.54n, 120.62n

Melwern Melverley, pentref i'r de o Groesoswallt a ger y Cnwcin yn swydd Amwythig 65.53, 79.38n

Menai afon sy'n gwahanu Ynys Môn ac Arfon 52.11n, 57.42, 62.42

Merthyr Tudful, plwyf ac ardal yng nghwmwd Uwch Caeach ym Morgannwg 16.22n, 74

Moel Othrwm Moel Orthrwm, mynydd ger Nannau, ym mhlwyf Llanfachreth, cwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd 50.21n **Moel Orthrwm** 51.5n

Moelyrch Moeliwrch, cartref nawdd ger Llansilin, cwmwd Cynllaith 90.11, 92.15n

Môn ynys yng ngogledd eithaf Cymru, a ymrannai'n dri chantref, Cemais (gogledd), Aberffraw (gorllewin), Rhosyr (de-ddwyrain) 10.10, 12.11, 47, 15.18, 16.33n, 19.10n, 20.77, 21.12, 56, 66, 29.19n, 38.41n, 43n, 53, 39.43n, 51n, 45.30, 49.34, 52.13n, 55.45n, 56.34, 44, 51, 57.1n, 53, 60.4n, 47 62.18, 26, 36, 44, 63.2n, 18, 26, 48, 62, 64, 68, 64.2n, 38, 52, 62, 65.18, 37, 48, 66, 65a.58, 70.3, 27n, 72.28n, 63, 76.6, 18, 80.32, 44, 82.9n, 31, 91.15n, 100.10, 43n, 108.4n, 117.47n

Morfa, y rhan ddeheuol arglwyddiaeth Casnewydd neu Wynllŵg? 18a.19n

Morgannwg yn wreiddiol un o hen raniadau Cymru, ond ar ôl y Goncwest cyfatebai'n fras i sir Forgannwg 15.16, 17.12, 19.5n, 21.67n, 25.53n, 26.54n, 35.32n, 37.27, 38.44n

Môr Rudd Môr y Gogledd 126.54n

Môr Tawch Yr Eigion, Oceanus 29.54n

Mynyw sef Tyddewi, sir Benfro 12.15, 19.9n, 26.49n, 28.35, 30.26n, 70.3n, 52n, 94.19 **Tyddewi** 37.9n

Nanconwy cwmwd yn Arllechwedd Uchaf, Gwynedd Uwch Conwy 100.12n

Nanheudwy cwmwd yn Swydd y Waun, yn cynnwys plwyfi Llangollen, y Waun, &c. 103.6n

Nanmor Deudraeth trefgordd ym mhlwyf Beddgelert, cwmwd Eifionydd 54.3

Nannau cartref nawdd ym mhlwyf Llanfachreth, cwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd 48.51n, 49.3n, 53, 62, 50.11n, 51.10n, 63.7n

Nedd[1] bwrdeistref ym Morgannwg 15.14

Nedd[2] afon sy'n tarddu ym Mannau Brycheiniog gan lifo i'r de, drwy Ddyffryn Nedd, allan i'r môr ym Mae Abertawe 21.68n

Nordd, y y Gogledd, gogledd Lloegr 24.26, 25.64n, 41.42n, 44.44n, 44a.42

Norhantwn Northampton 24.24n

Normandi Normandy, gogledd Ffrainc 2.10n, 23, 27n, 3.2, 20.10

Northfolc Norfolk, dwyrain Lloegr 76.8n

Ogwen afon sy'n llifo heibio i Gochwillan i'r môr yn Aberogwen, ger Bangor, Gwynedd Uwch Conwy 55.30n

Opia Ethiopa, y wlad yn Affrica 59.44n

Paitio Poitou, talaith ar arfordir gorllewinol Ffrainc 4.38

Pant -y-groes, Pant yr Hengroes gw. **Llanegwestl**

Parc Emral cartref nawdd ym Maelor Saesneg 74.2n **Emral** 74.24

Parc Enwig man anh., o bosibl yn y Berwyn 76.27n

Paris prifddinas Ffrainc 1.26n, 87.23n, 98.43n

Penbrwg gw. **Penfro**

Penfro cantref, arglwyddiaeth neu dref ac iddi gastell mawr yn ne-orllewin Cymru 21.18n, 20, 28.11, 114.24 **Penbrwg** 24.20, 26.54n, 28.22n a gw. **iarll Penfro**, **iarll Penbrwg**

Pengwern trefgordd ac enw cartref nawdd yn Llangollen, Nanheudwy 106.36

Penllyn cantref ym Meirionnydd yn cynnwys cymydau Dinmael, Edeirnion, Uwch Tryweryn ac Is Tryweryn 42.5n, 54, 64.9n, 66.40, 121.22n a gw. **Tudur Penllyn**

Pennant Melangell plwyf yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr 42.25–7n

Pen-rhos Pen-rhos Fwrdios, cartref nawdd ger Caerllion ar Wysg 114.3n

Penrhyn cartref nawdd ar lannau'r Fenai ym mhlwyf Llandegái 57.6n **y Penrhyn** 56.65n

Pentrecynfrig pentref a chartref nawdd, tua 2km i'r de o'r Waun, swydd Amwythig 108.20n

Pentre'rfelin Pentrefelin, yn Llandysilio-yn-Iâl, ychydig i'r de o abaty Glyn-y-groes 111.25n

Pen-y-lan Penlan, ger y Bala, yn ôl pob tebyg 48.11n

Peris afon yng ngogledd cwmwd Anhuniog, Ceredigion 11.46n

Porth Siaff porthladd yn Israel 97.8n

Porth Wgon man anh. y cysylltir Tegau Eurfron ag ef 107.11n

Powls cadeirlan St Paul's, Llundain 22.26n, 99.8 **Powlys** 116.19n a gw. **Dawns o Bowls** fel e.c.

Powlys gw. **Powls**

Powys un o hen daleithiau Cymru a rennid yn hanesyddol yn Bowys Fadog (gogledd) a Phowys Wenwynwyn (de). Cynhwysa yn fras siroedd Trefaldwyn, Maesyfed a

Brycheiniog a rhan o sir Ddinbych 8.34, 15.19, 24.74, 26.53n, 27.52, 38.5, 53, 39.18, 48, 41.31, 42.23, 53.12, 60, 66.46n, 79.39, 82.16, 24, 83.8, 84.12, 27, 85.16, 88.1, 89.39n, 90.62n, 94.4, 60, 95.30n, 61, 98.23n, 33, 42n, 104.12, 115.12, 34 **dwy Bowys** 117.55 **Powystir** 27.42n, 80.3, 97.47

Powys Fadawg Powys Fadog, gogledd Powys 86.17n **Powys Fadog** 66.31n, 104.14

Prydain Prydain Fawr 14.54, 25.2 **Ynys Brydain** 58.52, 107.15 **Brytaen** 78.25 **y Fêl Ynys** 88.28 **Ynys y Cedyrn** 29.46n

Prydyn yr Alban neu'r Hen Ogledd 63.57n a gw. **Du o Brydyn**

Prysaddfed Prysaeddfed, cartref nawdd ger Bodedern yng nghwmwd Llifon, Môn 63.16n, 64.49n

Rug cartref nawdd ger Corwen, Edeirnion 44.23n, 49.47n

Rhaglan castell Syr Wiliam ap Tomas a Wiliam Herbert yn arglwyddiaeth Brynbuga, Gwent 19.1n, 22, 36, 20.8, 15, 44, 54, 20a.10n, 34, 23.5, 24.55n, 26.10, 40, 60, 27.16, 28.47

Rhiw, y enw ar lys neu fryn ger Aberriw, plwyf ar y ffin rhwng cymydau Cedewain a Llannerch Hudol, sir Drefaldwyn 38.14n, 22, 56n

Rhiwabon plwyf rhwng Llangollen a Wrecsam ym Maelor Gymraeg 72.53, 116.30

Rhiw Tren cartref nawdd ym mhlwyf Llanybydder 12.25n

Rhôn Rouen, prifddinas Normandi, gogledd Ffrainc 1.2n, 18, 34, 41, 55, 3.16n, 23, 55, 29.6n, 40, 98.44n

Rhos cantref yn ne Penfro yn cynnwys Hwlffordd 28.19n

Rhosyr safle hen lys tywysogion Gwynedd ger Niwbwrch, Môn, ac enw cantref yn ne-ddwyrain Môn yn cynnwys cymydau Menai a Dindaethwy 65.42

Rhuddlan tref a chwmwd yng nghantref Tegeingl 61.64n

Rhufain prifddinas yr Eidal, cyrchfan pererinion 23.10, 29.40, 36.42, 37.14, 61.57n, 82.48, 91.21n, 102.18, 107.20n, 111.59, 112.2, 4n, 125.9

Rhuthun tref ac arglwyddiaeth yn Nyffryn Clwyd, Gwynedd Is Conwy 121.26n, 122.17n

Rhydodyn plasty ym mhlwyf Llansawel, cwmwd Caeo 101a.47

Rhydychen Oxford, Lloegr 6.25–6, 28

Sain Clêr Sanclêr, arglwyddiaeth i'r dwyrain o Gaerfyrddin 27.35n

Sain Siâm Santiago de Compostela, cyrchfan pererinion yng ngogledd-orllewin Sbaen 37.11

Saint afon sy'n llifo i'r môr yng Nghaernarfon, Gwynedd 65.2n

Salbri Salisbury, dinas yn Wiltshire 61.53n **Salsbri** 25.5

Sarn Elen Sarn Helen, yr hen ffordd Rufeinig ar hyd gorllewin Cymru 21.6n

Sermania gw. **Almaen**

Siêb Cheapside, ardal enwog am ei siopau yn Llundain 22.28n, 58.53n, 102.35 **Siêp** 41.4n, 73.52n, 101a.24n

Sieffild Sheffield, swydd Efrog 78.28

Siffnal Shifnal, swydd Amwythig 78.30n

Sin Sheen, palas brenhinol gynt ger Richmond-on-Thames 37.10

sir Gaer sir Gaernarfon 55.52n

sir Gaerfyrddin sir Gaerfyrddin 13.47–8 **swydd Gaer** 14.18

Sodma Sodom, dinas yng ngwlad yr Iorddonen, Beibl 89.14n

Staffordd Stafford, dinas yng nghanolbarth Lloegr 44.43n a gw. **Syr Wmffre Staffordd**

swydd Gaer[1] gw. **sir Gaerfyrddin**

swydd Gaer[2] Cheshire 71.35n

swydd Henffordd Herefordshire 36.12

Swydd y Waun Arglwyddiaeth y Waun, yn cynnwys cymydau Nanheudwy, Mochnant Is Rhaeadr a Chynllaith 103.34n, 104.7, 107.60n

Sycharth llys Owain Glyndŵr yn Llansilin, Powys 38.51n

Talebolion Talybolion, cwmwd yng nghantref Cemais, Môn 39.52n

Talgarth tref yn sir Frycheiniog 30.24

Tal-y-bont ger y Trallwng 88.31n

Tanad afon ar y ffin rhwng Powys Fadog a Phowys Wenwynwyn ac yn llifo i Efyrnwy ger Abertanad 86.13, 40, 87.29n, 88.11n, 89.57n, 95.36n

Tawy afon Tawe, sy'n tarddu ym Mannau Brycheiniog ac yn llifo i'r môr yn Abertawe 14.20n

Tegeingl un o bedwar cantref y Berfeddwlad, yn cynnwys cymydau Cwnsyllt, Prestatyn a Rhuddlan 43.54n, 47.16n, 61.63n, 70.32n **Tegaingl** 121.22n

Teifi afon sy'n tarddu yng ngogledd Ceredigion ac yn llifo i'r môr yn Aberteifi 8.36, 9.45n, 12.9, 46, 13.4, 43.25

Teirgwent gw. **Gwent**

Traean, y Y Traean, yn arglwyddiaeth Croesoswallt, swydd Amwythig 95.43n

Traeth Mall, y gw. **Malltraeth**

Trallwng, y tref yng nghwmwd Ystrad Marchell, ar y ffin â swydd Amwythig 39.70n

Tre'rtŵr cartref nawdd ym mhlwyf Llanfihangel Cwm Du, Dyffryn Wysg 19.26n

Trefawr rhan o blwyf Llangollen, Nanheudwy, yn cynnwys Trefor Uchaf a Threfor Isaf 3.55n, 103.39, 105.23n, 49, 105.9n, 113.85n, 116.59 **Trefor** 72.22n, 103.38n, 107.59n, 111.24n, 25, 112.4n **y Dref-fawr** 99.4n

Trefgwnter cartref nawdd ger Talgarth yn Nyffryn Gwy 30.48

Trefrydd Y Drefrudd, Wattlesborough, ym mhlwyf Alderbury, swydd Amwythig 81.12n **y Drefrudd** 80.18n, 55 **y Dref Rudd** 80.57

Tregarn Tref y Garn, Trefgarnowain ym mhlwyf Breudeth, sir Benfro 80.58n

Tren afon sy'n llifo i afon Teifi ger Llanybydder 12.51

Trent afon sy'n tarddu yn swydd Stafford ac yn ymuno ag afon Ouse ychydig i'r de o Hull 14.53n

Tro cartref nawdd yn Llanfihangel Troddi, i'r de o Drefynwy 19.26n

Troea y ddinas hynafol yn Anatolia (Twrci) 53.24 **Caer-dro** 85.36n

Trum Elidir mynydd neu fryn anh., o bosibl yn y Berwyn 108.54n

Tŵr, y Tŵr Llundain neu o bosibl Tretŵr yn sir Frycheiniog 17.35n

Twrcelyn Twrcelyn, cwmwd yng nghantref Cemais, Môn 62.11n, 14

Tŵr Gwyn, y Llundain 80.25n

Tŵr yr Eryr un o dyrau castell Caernarfon 105.20n

Tyddewi gw. **Mynyw**

Tywi afon sy'n tarddu yng Ngheredigion ac yn llifo i'r môr ger castell Llansteffan yn sir Gaerfyrddin 27.45n

Tywyn ym Meirionnydd 14.53n

Tywyn, y y Ferwig, Ceredigion 38.20n

Uwch Aeron yr ardal i'r gogledd o afon Aeron yng Ngheredigion 10.16, 11.22

Uwch Conwy Gwynedd Uwch Conwy, y rhan o Wynedd i'r gorllewin o afon Conwy 63.56n

Warwig Warwick 44.24n a gw. fel enw person

Waun, y tref ar y ffin â swydd Amwythig yn ymrannu'n ddwy ran, y Waun Isaf a'r Waun Uchaf 95.43n, 104.17, 105.42n, 107.49 **dwy Waun** 107.14n **y ddwy Waun** 111.23

Waun Isaf, y trefgordd yn y Waun, tref ar y ffin â swydd Amwythig 104.1n, 105.35n

Weblai Weobley, cartref teulu Devereux yn swydd Henffordd 26.7 **Weble** 27.9

Weble gw. **Weblai**

Wengraig, y y graig y saif plasty Nannau arni neu lys cysylltiedig â Nannau, ym mhlwyf Llanfachreth, cwmwd Tal-y-bont, Meirionnydd 50.50n, 51.13n **y Graig Wen** 49.7n

Westmestr Westminster, Llundain 94.6n

Winsawr Winsor, castell brenhinol yn Berkshire 97.43n

Wlasgyd Woolascott, trefgordd yng nghyffiniau Amwythig 83.34n

Wtil Ynysoedd yr Hebrides 120.4n

Wyddfa, y Yr Wyddfa, mynydd uchaf Eryri, Gwynedd 21.36n

Wysg afon sy'n llifo drwy Went ac i Foryd Hafren ger Casnewydd 19.74n, 27.14n, 114.9n

Ynys Brydain gw. **Prydain**

Ynys Wydrin Glastonbury, de-orllewin Lloegr 22.60n

Ynys y Cedyrn gw. **Prydain**

Ynys y Saint Ynys Enlli 37.11n

Ysbaen Sbaen 29.28 **yr Ysbaen** 77.20n

Ysbrús, yr Prwsia, gogledd yr Almaen 96.26n

Ystrad Alun gw. **Alun Ystrad**

Ystrad-fflur abaty Sistersaidd yng Ngheredigion 9.9–10, 30.38 **Fflur Ystrad** 8.58 **caer Fflur** 8.23 **côr Fflur** 6.18, 7.40 **gloywgor Fflur** 6.6 **teml Fflur** 5.4, 8.19 **tyrau Fflur** 9.38 **tŷ Fflur** 8.18

Ystrad Marchell abaty Sistersaidd ger y Trallwng 82.1n

Ystradmeurug Ystradmeurig, pentref ger Tregaron a oedd yn safle hen lys brenhinol 9.66